Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2016 - 2017

Ysgol Uwchradd Tywyn



LLYWODRAETHWYR/*GOVERNORS*
YSGOL UWCHRADD TYWYN 2016 - 2017

CYNRYCHIOLWYR CYNGOR SIR/*COUNTY COUNCIL REPRESENTATIVES*

Cynghorydd/*Councillor* Anne Lloyd Jones Hendy, Tywyn, Gwynedd, LL36 9RU.	01654 710457 jones@farmline.com
Cynghorydd/*Councillor* Louise Hughes 20 Maesegryn, Llanegryn, Tywyn, Gwynedd, LL36 9SH.	01654 711051 louisehughes1962@yahoo.com
Cynghorydd/*Councillor* Dewi Owen Esgairgyfela, Aberdyfi, Gwynedd, LL35 0SP.	01654 767267 dewiesgair@hotmail.co.uk
Cynghorydd/*Councillor* Mike Stevens Verano, Pier Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 0AW.	01654 712225/ 07778 564755 01654 710137 (Genesis) cynghorydd.mikestevens@gwynedd.gov.uk

CYNRYCHIOLWYR Y GYMUNED /*COMMUNITY REPRESENTATIVES*

Mr Arwel Pierce Llain-y-Grug, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd, LL36 9RB.	01654 711470 gwenar@btinternet.com
Mrs Elizabeth Williams Trefri, Brynhyfryd Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9HG.	01654 710127 elizabeth@trefri.freeserve.co.uk
Mr Stewart Langston 41 Y Groesfordd, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9RP	01654 711615 riverslea1@xcedes.com
Mr David Arch Penbryn Bach, Llewelyn Road, Tywyn, Gwynedd LL36 0BT	07891736093 wavey.arch@gmail.com

CYNRYCHIOLWYR Y STAFF/*STAFF REPRESENTATIVES*

Mr Huw Williams Maesnewydd, Aberhosan, Machynlleth, Powys, SY20 8RA.	01654 700069 huwwynwilliams@hotmail.com
Mr Mark Freeman 61 Faenol Isaf, Tywyn, Gwynedd, LL36 0DW	01654 711182 freemanm@tywyn.gwynedd.sch.uk

STAFF ATEGOL/ANCILLARY STAFF

Ms Michelle Bain 25 Cambrian Road, Tywyn, Gwynedd LL36 0AG	01654 712602 mitzy2210@gmail.com

CYNRYCHIOLWYR Y RHIENI/*PARENTS REPRESENTATIVES*

Mr Chris Edwards 18 Pen Morfa, Tywyn, Gwynedd, LL36 9BL	01654 711482 maximg@tiscali.co.uk
Mrs Suzanne Williams Coed y Gweddill, Llwyngwril, Gwynedd, LL37 2Q	01341 250703 williamscyg@tiscali.co.uk
Mrs Nuala Dunn Rhyd Uchaf, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9LH	01654 710521 nualamoon@hotmail.com
Mrs Manon Steffan Ros 37 Ffordd Dyfrig, Tywyn, Gwynedd LL36 9EH	07887803067 manonsteffan@hotmail.com
Mrs Anwen Jones 6 Maengwyn Street, Tywyn, Gwynedd LL36 9DW	01654711380 m.jones246@btinternet.com

CLERC Y LLYWODRAETHWYR/GOVERNORS CLERK

Mrs Rachel Mumford 6 Dolithel, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9RR	01654713992 r.mumford@outlook.com

LLYWODRAETHWYR/*GOVERNORS*
YSGOL UWCHRADD TYWYN 2017 - 2018

CYNRYCHIOLWYR CYNGOR SIR/*COUNTY COUNCIL REPRESENTATIVES*

Cynghorydd/*Councillor* Anne Lloyd Jones Hendy, Tywyn, Gwynedd, LL36 9RU.	01654 710457 jones@farmline.com
Cynghorydd/*Councillor* Louise Hughes 20 Maesegryn, Llanegryn, Tywyn, Gwynedd, LL36 9SH.	01654 711051 louisehughes1962@yahoo.com
Cynghorydd/*Councillor* Dewi Owen Esgairgyfela, Aberdyfi, Gwynedd, LL35 0SP.	01654 767267 dewiesgair@hotmail.co.uk
Cynghorydd/*Councillor* Mike Stevens Verano, Pier Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 0AW.	01654 712225/ 07778 564755 01654 710137 (Genesis) cynghorydd.mikestevens@gwynedd.gov.uk

CYNRYCHIOLWYR Y GYMUNED /COMMUNITY REPRESENTATIVES

Mr Arwel Pierce Llain-y-Grug, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd, LL36 9RB.	01654 711470 gwenar@btinternet.com
Mrs Elizabeth Williams Trefri, Brynhyfryd Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9HG.	01654 710127 elizabethtrefri@gmail.com
Mr John Paul Rowlands-Ralph Brynllin, Bwlchllan, Lampeter, SA48 8QR	07725015888 brynllin@outlook.com
Mr David Arch Penbryn Bach, Llewelyn Road, Tywyn, Gwynedd LL36 0BT	07891736093 wavey.arch@gmail.com

CYNRYCHIOLWYR Y STAFF/*STAFF REPRESENTATIVES*

Mr Huw Williams 17 Treowain, Machynlleth, Powys, SY20 8EJ.	01654 700069 huwwynwilliams@hotmail.com
Mr Mark Freeman 61 Faenol Isaf, Tywyn, Gwynedd, LL36 0DW	01654 711182 freemanm@tywyn.gwynedd.sch.uk

STAFF ATEGOL/ANCILLARY STAFF

Ms Michelle Bain 25 Cambrian Road, Tywyn, Gwynedd LL36 0AG	01654 712602 mitzy2210@gmail.com

CYNRYCHIOLWYR Y RHIENI/*PARENTS REPRESENTATIVES*

Ms Hilary Rowlands 35 Ffordd Dyfrig, Tywyn, Gwynedd LL36 9EH	07584305158 hilary.rowlands@gmail.com
Mrs Nuala Dunn Rhyd Uchaf, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9LH	01654 710521 nualamoon@hotmail.com
Mrs Manon Steffan Ros 37 Ffordd Dyfrig, Tywyn, Gwynedd LL36 9EH	07887803067 manonsteffan@hotmail.com
Mrs Anwen Jones 6 Maengwyn Street, Tywyn, Gwynedd LL36 9DW	01654711380 m.jones246@btinternet.com

CLERC Y LLYWODRAETHWYR/GOVERNORS CLERK

Mrs Rachel Mumford 6 Dolithel, Bryncrug, Tywyn, Gwynedd LL36 9RR	01654713922 (07393363472) r.mumford@outlook.com

RHESTR ATHRAWON A STAFF - 2016-2017

MRS HELEN LEWIS	PENNAETH
MRS SUE BOWEN	PENNAETH GWYDDONIAETH
MR MARK FREEMAN	PENNAETH DYLUNIO A THECHNOLEG a TGCh
MR DOMINIC GILBERT	CERDD
MR EDWARD HUGHES	MATHEMATEG SERYDDIAETH
MISS HANNAH HUGHES	SAESNEG
MRS SIAN JARMAN	PENNAETH CYMRAEG / CYD-GYSYLLTYDD LLYTHRENENDD CYMRAEG
MRS ALISON MILTON	PENNAETH MATHEMATEG, CYD-GYSYLLTYDD RHIFEDD
MISS ELLIW MORRIS	PENNAETH DYNIAETHAU DROS DRO (RHANNU'R SWYDD) DAEARYDDIAETH A CHYMRAEG.
MR SIMON NEWBY	PENNAETH SAESNEG / CYD-GYSYLLTYD LLYTHRENNEDD
MR ISLWYN PHILLIPS	CYDLYNYDD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL CYDLYNYDD CYNNYDD DISGYBLION DYLUNIO A THECHNOLEG CYSWLLT CYNRADD/UWCHRADD
MRS G ROBERTS	MATHEMATEG
MISS SIONY RUDD	ADDYSG GORFFOROL, Y BAGLORIAETH
MR DAVID THORP	DIRPRWY BENNAETH CYMRAEG
MISS ANNE-SOPHIE TRONET	IEITHOEDD MODERN, TECHNOLEG BWYD CA3, ARLWYO (CA4)
MR HUW WILLIAMS	PENNAETH CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL, ATHRO ADDYSG GORFFOROL, CYDLYNYDD Y BAGLORIAETH, GWOBR DUG CAEREDIN, WYTHNOS CYFLEOEDD. MENTOR CYFFREDINOL
MRS NIA WILLIAMS	PENNAETH DYNIAETHAU DROS DRO (RHANNU'R SWYDD) ADDYSG GREFYDDOL, Cymraeg, Y BAGLORIAETH, ABaCh CYD CYSYLLTYDD ABaCh/Gyrfau
MR IFAN YWAIN	HANES

STAFF ATEGOL	
MISS MICHELLE BAIN	CYMHORTHYDD DOSBARTH
MR MICHAEL DAVIES	GOFALWR
MRS ELEN PUGH	CYDLYNYDD CLWB 5X60
MISS LYNSEY EVANS	SWYDDOG CYLLID
MISS CASSIE GRIFFITHS	CYMHORTHYDD DOSBARTH SAFON UWCH
MR MARC HULME	CYMHORTHYDD DOSBARTH
MR PAUL INGRAM	TECHNEGYDD CYFRIFIADURON
MRS RACHEL JENKINS	COGYDDES
MRS SANDRA LEWIS	CYMHORTHYDD DOSBARTH
MISS HEULWEN LLOYD	CYMHORTHYDD DOSBARTH
MR WAYNE OYSTON	CYMHORTHYDD DOSBARTH
MRS RUTH OWEN	SWYDDOG CLERIGOL
MISS SUE SMITH	CYMHORTHYDD PRESENOLDEB
MISS BETHAN WILLIAMS	SWYDDOG CYNHWYSIAD
MISS LORNA WILLIAMS	TECHNEGYDD GWYDDONIAETH
NURSE ANN HUGHES	NYRS YSGOL
PC GARETH EDWARDS	SWYDDFOG CYMUNEDOL
MRS LOIS PIERCE-JONES	SEICOLEGYDD ADDYSG YSGOL
MISS ELERI WYN JONES	SWYDDOG LLES ADDYSGOL
CEFNOGAETH ASIANTAETH	
MR STUART GRAY	(CAHMS)
PC JOHN PAUL ROWLANDS-RALPH	CYSWLLT YSGOL /HEDDLU

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2016 -2017

Roedd y flwyddyn ysgol ddiweddaraf fel arfer yn un hynod o brysur, gyda phwysau arbennig ar Llywodraethwyr sicrhau dyfodol ariannol diogel. Yn ôl ein cyllideb, dangoswyd ddiffyg - oedd yn profi pa mor dynn yw'r gyllideb erbyn hyn. Oherwydd fod nifer y disgyblion wedi gostwng yn y ddalgylch ac felly yr ysgol, mae'r gyllideb yn llai.

Nifer Disgyblion

Blwyddyn	**Medi 2015**	**Medi 2016**	**Medi 2017**
7	54	55	58
8	51	54	60
9	46	51	61
10	54	46	53
11	53	54	44
Cyfanswm	**258**	**260**	**276**

Gyda 52 o ddisgyblion yn gadael yr haf diwethaf a 58 yn dod i mewn ym mis Medi, mae nifer disgyblion yn yr ysgol wedi cynyddu i 276 ar gychwyn y flwyddyn academaidd 2017 – 2018. Mae llai o ddisgyblion dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain i ostyngiad yn y grwpiau ym mlwyddyn 7 ac 8 o 3 i 2 ym mhob pwnc erbyn Medi 2017.

Staffio

Staff yn dod i mewn:
Croesawyd y nhymor yr Hydref 2016:

- Mr David Thorp Dirprwy Bennaeth
- Miss Siony Rudd, athrawes Addysg Gorfforol
- Mr Marc Hulme, Cymhorthydd Dosbarth
- Mrs Sandra Lewis, Cymhorthydd Dosbarth

Ac yn Nhymor y Gwanwyn 2017:

- Miss Heulwen Lloyd, Cymhorthydd Dosbarth

Staff yn gadael ar diwedd y flwyddyn academaidd Gorffennaf 2016:

- Mr Trefor Jones (Dirprwy Bennaeth) i fod yn Bennaeth yn Ysgol Y Creuddyn
- Mrs Menna Diamond (Technoleg Bwyd) wedi ymddiswyddo yn gwirfoddol
- Mrs Jane Barraclough (Celf) wedi ymddiswyddo yn wirfoddol
- Miss Tracey Jones (Addysg Gorfforol) i Ysgol Arbennig ym Mae Colwyn
- Mrs Dianne Sheedy (cymhorthydd dosbarth) wedi ymddiswyddo.
- Mrs Cathy Evans (cymhorthydd dosbarth) wedi ymddiswyddo

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom y fraint o groesawu 1 darpar athrawes o brifysgol Aberystwyth, i ddysgu Saesneg.

Mae Ysgol Tywyn yn ysgol fechan mewn dalgylch ieithyddol cymysg. Yn ôl gofynion presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol dysgir y ddwy iaith i bob disgybl hyd at 16 oed. Sicrheir fod yr holl ddisgyblion sydd â'r gallu angenrheidiol i wneud hynny yn sefyll arholiadau allanol addas yn y pwnc.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio ar 28 gwers o 50 munud yr un a 3 gwers o 40 munud yr un bob wythnos, ar amserlen pythefnos. Rydym yn cynnig ystod eang oddi fewn y gwricwlwm sydd yn amrywiol ac yn berthnasol ac sydd yn cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a Llwybrau Dysgu 14 - 19. Mae'r ysgol yn anelu at gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl yn unol â'u gallu ieithyddol. Rhoddir disgyblion mewn grwpiau tiwtor dwyieithog gallu cymysg (ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2) yn unol a'u cyraeddiadau yn y Gymraeg. Bydd niferoedd yn y dosbarthiadau yn amrywio yn unol â maint y rhai fydd yn cychwyn yn yr ysgol. At hyn o bryd y rhif yw 58 ac mae gennym 2 grŵp tiwtor.

Darpariaeth Addysg Gorfforol

Yng nghyfnod allweddol 3, mae 3 gwers o 50 munud ym mlwyddyn 7 a blwyddyn 8, a 2 gwers ym mlwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4, mae 2 wers ym mlwyddyn 10 a 2 ym mlwyddyn 11.

Mae gan yr ysgol nifer o dimau llwyddiannus ac mae disgyblion a ddewiswyd ar gyfer y timau yn dangos lefelau priodol o ymrwymiad.

Mae campfa a chaeau chwarae ar dir Ysgol Uwchradd Tywyn. Hefyd mae'r ysgol yn cael defnyddio y Neuadd Chwaraeon, Canolfan Ffitrwydd, Cae Chwarae bob tywydd, a'r cwrt tenis yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni.

Lles Ddisgyblion

Fe rydd yr Ysgol bwysigrwydd mawr i les pob un disgybl. Rydyn yn cydnabod fod llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar allu disgyblion i ddysgu'n effeithiol. Mae'r Ysgol wedi ei hymrwymo i ddatgloi potensial er mwyn sicrhau fod pob un plentyn yn llwyddiannus ar eu termau eu hunain.

- Mae'r ysgol hon yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.
- Mae'r ysgol hon yn anelu at weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl.

Dadansoddiad o Berfformiad Disgyblion 2014-2017

Arfarniad cyffredinol:

Perfformiad Cyfredol: Da

Perfformiad Cyfnod Treigl: Da

Safonau CA3:

Dangosydd Pwnc Craidd:

	2014-2015			2015-2016			2016-2017		
	Cyf	B/G	PYD	Cyf	B/G	PYD	Cyf	B/G	PYD
Ysgol	92.6 (5)	-5.3	-12.4	93.5 (6)	-13.0	+7.9	94.1 (6)	-11.1	
Teulu	91.5	-6.3	-7.8	92.2	-3.0	-9.2	93.2	-5.3	
ALl	91.3	-3.3	-15.3	92.0	-3.9	-10.9	92.8	-4.4	

- Cynnydd cyson yn y DPC dros 3 mlynedd- o 92.6% yn 2014-2015 i 94.1% yn 2016-2017.
- DPC yn chwartel 2 yn y ddwy flynedd diwethaf (llai na 1 plentyn i chwartel 1), ac yn chwartel 1 yn y flwyddyn cynt.
- DPC uwchben y cyfartaledd teulu ac ALl yn y tair mlynedd ddiwethaf. Gwerth Ychwanegol: DPC wedi eu cyflawni (94.1%) yn .1% yn uwch na'r disgwyliedig. Cyflawniad yn uwch na'r disgwyliedig yn y dair mlynedd treigl.
- Bwlch bechgyn/ merched wedi lleihau mewn 2 o'r 3 mlynedd. Bwlch presennol yn 4.8% yn fwy na'r teulu a 6.7% yn fwy na'r ALl.
- Bwlch PYD wedi lleihau'n sylweddol o 2013-2014 (45.7%).

Perfformiad Cyfredol: Da

Perfformiad Cyfnod Treigl: Da

*Dangosydd Pwnc Craidd (canran y disgyblion sydd wedi llwyddo i gael Lefel 5+ yn y Gymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

Eto eleni mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 yn hynod o lwyddiannus gyda'r dangosydd pwnc craidd (94.1 %) yn dangos fod yr ysgol yn cael ei rhestru yn y 50% uchaf o'i theulu o ysgolion . Bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr a gyflawnodd Lefel 5+ yn y Gymraeg (bron 10%) . Mae safonau mewn Saesneg a Mathemateg wedi aros yn uchel gyda 96.1 % o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 5+ . Yn anffodus, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5+ mewn Gwyddoniaeth o 100% i 94.1%, sy'n rhoi'r ysgol yn y chwartel isaf.

Cyfnod Allweddol 4 Canlyniadau 2016-2017

Cyd-destun:
Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn y 4ydd teulu ac yn y safle cyntaf. O ran prydau ysgol am ddim mae'r ysgol yn y grŵp 10%-15%. Mae Bl.11 2016-2017 yn cynnwys 53 o ddisgyblion, 30 bachgen a 23 merch. Mae hyn yn golygu fod pob disgybl cyfwerth â 1.9%.

Arfarniad: Mae safonau yn y Prif Dangosyddion CA4 yn dda

Prif Dangosyddion CA4 dros y cyfnod treigl

	2014-2015		2015-2016		2016-2017	
TL2+	60	4	75	1	62.3	2
TL2	97.8	1	100	1	81.1	1
TL1	100	1	100	1	100	1
DPC	57.8	4	69.2	1	56.6	3
5 A*-A	26.7		15.4		18.9	
Sgôr 8	383.6	1	379.7	1	353.3	1
Sgôr 9					385.2	1

- Gwelir patrwm gadarnhaol yn y dangosyddion dros y cyfnod treigl. Mae dau dangosydd wedi bod yn y chwartel uchaf dros y dair blynedd diwethaf.
- TL2+ a DPC: Gwelir fod y dangosyddion yma wedi symud chwarteli dros y cyfnod treigl. Mae'r dwy ddangosydd wedi bod yn y Chwartel isaf yn 2014-2015, ond yna yn yr uchaf yn 2015-2016. Gwelir perthynas uniongyrchol ym mherfformiad TL2+ a'r DPC gyda'r perfformiad yn Mathemateg. Mae absenoldeb y Pennaeth Adran yma wedi bod yn allweddol wrth ystyried natur y canlyniad yma. Rhaid hefyd ystyried effaith gwerth pob disgybl yma (1.9%). Mae'r DPC yn anodd ei gymharu gan nad ydym wedi sefyll arholiad BTEC Gwyddoniaeth ers 2016, tra bod ysgolion eraill wedi gwneud.
- Yr ysgol yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd ALl yn nhri o'r dangosyddion yn 2014-2015, ac yna ym mhob dangosydd yn 2015-2016. Yn 2016-2017 roedd yn uwch na'r cyfartaledd ym mhob dangosydd heblaw'r DPC (gweler uchod).
- Yr ysgol yn perfformio'n well na'r cyfartaledd Teulu yn nhri o'r dangosyddion yn 2014-2015, ym mhob dangosydd yn 2015-2016, ac mewn pedwar dangosydd yn 2016-2017.
- Mae perfformiad TL2+ DPC yn is na'r targedau a osodwyd. Rhaid nodi effaith yr arholiadau newydd Mathemateg ar hyn, yn ogystal a'r ffaith nad ydym yn rhedeg cwrs BTEC Gwyddoniaeth bellach, tra bod ysgolion eraill yn.
- Roedd perfformiad disgyblion PYD yn debyg iawn i'r rhai heb PYD o ran Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio, TL2+ a DPC yn 2016-2017, ond yn sylweddol llai o ran TL2. Rhaid cofio mai pump disgybl PYD oedd yn 2016-2017, sydd yn golygu fod pob disgybl cyfwerth â 20%. Rhaid cydnabod hefyd mai dim ond pedwar disgybl PYD oedd yn y flwyddyn 2015-2016, gyda pob disgybl cyfwerth â 25%.
- Roedd y bwlch bechgyn/ merched wedi cynyddu yn sylweddol yn 2015-2016 yn nangosyddion TL2+ a DPC, ac yn uwch na'r teulu, ond erbyn 2016-2017 roedd y bwlch yn y ddau dangosydd wedi gostwng, ac yn is na'r Teulu a'r ALl.
- Mae'r ysgol wedi ei osod yng ngrŵp safonau 1 dros y dair mlynedd diwethaf.
- Roedd yr ysgol ar frig y Teulu yn nangosydd Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio yn cynnwys iaith a mathemateg yn 2014-2015 a 2015-2016. Mae'r ysgol wedi bod uwchben y cyfartaledd teulu ac ALl dros y dair mlynedd diwethaf. **Mae hyn yn gryfder.**

- Yn 2015-2016 roedd yr ysgol yn ddegfed yn y teulu o ran 5+ A*-A, yn is na'r cyfartaledd teulu ac ALl, 12.3% lawr ar 2014-2015. Cododd y dangosydd yma i 18.9% yn 2016-2017, sydd yn seithfed yn y Teulu, ac islawr'r cyfartaledd Teulu ac ALl.
- Gwelir fod canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Bagloriaeth Cymru hyd at L2 wedi cynyddu o 93.3% i 96.2% i 98.1% dros y dair blynedd diwethaf. **Mae hyn yn gryfder**.

Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Tywyn wedi mwynhau blwyddyn llwyddiannus yn eu haroliadau TGAU ac yn cymharu'n dda gyda ysgolion tebyg yng Ngwynedd a Chymru. Mae gwaith caled disgyblion a staff wedi talu i ffwrdd unwaith eto wrth i'r ysgol lwyddo i gynnal ei safonau uchel wrth sicrhau fod 81.1% o ddisgyblion wedi sicrhau A*-C mewn o leiaf pump pwnc TGAU. Sicrhaodd pob disgybl o leiaf 5 cymhwyster TGAU.

Gyda'r pwyslais genedlaethol a rhyngwladol gynyddol ar y Fagloriaeth Gymreig yn y blynyddoedd nesaf, mae'r ysgol yn hapus iawn fod 98.1% o ddisgyblion wedi cyrraedd y safon y flwyddyn yma. Mae'r llwyddiant yma, sy'n adeiladu ar ganlyniadau rhagorol dros blynyddoedd blaenorol, yn adlewyrchiad o waith caled y disgyblion, addysgu effeithiol a'r llwyddiant mewn integreiddio'r weithgareddau yma i'r cwricwlwm ysgol-gyfan.

Y Profion Genedlaethol

Mae ysgolion wedi defnyddio profion erioed i weld pa mor dda y mae plant yn datblygu. Mae trefnu profion cenedlaethol sydd wedi'u datblygu'n benodol i Gymru'n golygu fod gan athrawon ym mhob ysgol yr un gwybodaeth o ran sgiliau darllen a rhifedd eu disgyblion. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gael darlun o lwyddiant cenedlaethol yn y pynciau hyn. Gall y profion gymharu llwyddiant mewn darllen a rhifedd yn eu hysgolion gyda'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol.

Mae'r profion darllen yn cynnwys cwestiynau byr yn seiliedig ar ddau neu fwy o destunau. Bydd rhai o'r cwestiynau yn canfod pa mor dda y mae'r disgybl wedi deall y testun, a'r lleill yn anelu at weld a yw plant yn gallu llunio barn am yr hyn y maent yn ei ddarllen. Cyn i'r prawf ddechrau, caiff y plant gyfle i ymarfer rhai cwestiynau er mwyn iddynt wybod sut fathau o gwestiynau yw'r ddau fath, a'r hyn fydd yn cael ei ofyn.
Mae profion darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg a mae pob prawf yn cymryd hyd at awr.

Mae dau fath o brofion rhifedd.
1. Mae'r prawf gweithdrefnol yn mesur sgiliau rhif, mesur a data.
2. Mae'r prawf rhesymu yn mesur pa mor dda y gall blant ddefnyddio yr hyn y maent yn ei wybod i ddatrys problemau pob dydd.

Mae cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg ar gael ar gyfer y ddau brawf. Mae pob prawf rhifedd yn cymryd hyd at hanner awr.

Gall y profion roi gwybodaeth ddefnyddiol i ychwanegu at yr hyn y mae athro eich plentyn yn ei wybod am eu sgiliau darllen a'u rhifedd o'u gwaith bob dydd yn y dosbarth. Gall athrawon ddefnyddio'r canlyniadau i nodi cryfderau a hefyd y meysydd ble mae'n bosib y bydd angen rhagor o help. Efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi yn ystod cyfarfodydd rhieni. Fodd bynnag, dim ond profi ystod cyfyng o sgiliau a galluoedd y gall unrhyw un prawf ei wneud. Ni all y profion darllen roi unrhyw wybodaeth am sgiliau siarad, gwrando neu ysgrifennu. Ni all y profion rhifedd brofi dealltwriaeth eich plentyn o ffurf a gofod. Ni fydd rhai plant yn rhoi o'u gorau ar ddiwrnod y prawf. O ganlyniad, ni fydd canlyniadau'r prawf ohonynt eu hunain yn rhoi darlun cyflawn o'u gallu. Mae pob prawf wedi'i gynllunio i fesur cyrhaeddiad ar draws yr ystod disgwyliedig ar gyfer pob grwp blwyddyn. Ni fydd y profion yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy bob amser am blant sy'n gweithio ar eithaf yr ystod ar gyfer eu hoedran. Mae'n bwysig i drafod cynnydd eich plentyn gyda'u hathro yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ganddynt, yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniad un prawf. Mae hefyd yn bwysig i gofio nad yw pob plentyn yn datblygu ar yr un raddfa.

Gall helpu gyda dysgu eich plentyn yn y cartref a thu allan i'r cartref wneud gwahaniaeth mawr i'w datblygiad. Byddai unrhyw un o'r canlynol yn help mawr. Mae darllen a siarad am unrhyw fath o destun megis llyfrau, cylchgronau, tudalennau ar y we, taflenni, hysbysebion. Defnyddio rhifau wrth siopa, cynllunio teithiau, edrych ar sgoriau pêl-droed, amser rhaglenni teledu. Rhannu gweithgareddau sy'n golygu darllen a rhifedd fel coginio, chwarae gemau bwrdd, gwylio neu gymryd rhan mewn chwaraeon, ysgrifennu e-byst. Trafod geiriau a rhifau rydych yn dod ar eu traws o ddydd i ddydd.

Datblygiad Staff

Neilltuwyd HMS ar gyfer y staff i drafod gwahanol agweddau o'n gwaith, gan gynnwys blaenoriaethau lleol a chenedlaethol:

- Cyflwyno Addysg Rhyw
- HWB+
- Hyfforddiant diffibriliwr
- Cymhwysedd Digidol
- Gweinyddu'r Bacc a HwB – Office 365 + One Note
- Cyrsiau TGAU newydd
- Prosiect Arloesol – Cwricwlwm Newydd Donaldson
- Train the Trainer
- E-Diogelwch

Bydd hyfforddiant ychwanegol yn cymryd lle fydd yn ateb anghenion yr ysgol a blaenoriaethau adrannau ayyb.

Datblygiadau 14 – 19

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag Choleg Llandrillo (safle Dolgellau) i ddarparu cyrsiau galwedigaethol ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11, fydd yn arwain i gymhwyster Lefel 1 a Lefel 2. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaethau Salon (Lefel 1), Adeiladwaith (Lefel 1), Peirianneg (Lefel 2), Iechyd a Gofal (Lefel 2). Y llynedd, roedd 6 disgybl yn dilyn y cwrs Peirianneg, roedd pob un yn llwyddiannus. Eleni ym Mlwyddyn 11, mae 3 disgybl yn dilyn y cwrs Peirianneg ac ym Mlwyddyn 10, mae 16 yn dilyn y cyrsiau coleg: Peirianneg, Adeiladwaith, Iechyd a Gofal, Gwasanaethau Salon.

Mae'r ysgol yn cynnig 21 cymhwyster ychwanegol yn y flwyddyn 11 gyfredol.

Ym Mlwyddyn 11 2016-2017, cafodd 98.1% o'r disgyblion gymhwyster y Bagloriaeth Gymreig yn y lefel ganolradd (lefel 2) sef cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol.

STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD

Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yng Ngwynedd, mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion cynradd i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter, mae'n bleser gennym gyflwyno Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn rhoi arweiniad clir i'n hysgolion uwchradd am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

Sicrhawyd mewnbwn gwerthfawr i'r Strategaeth gan ddysgwyr uwchradd o wahanol gefndiroedd ieithyddol gan gynnwys Cymry cynhenid, dysgwyr rhugl a dysgwyr a roedd brwdfrydedd y disgyblion hyn wedi creu argraff arbennig.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy'r Gymraeg. Fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd y nod yma, mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu Strategaeth Iaith Uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Y WELEDIGAETH

Mae Cyngor Gwynedd yn gwbl ymrwymedig i gyfundrefn o ysgolion uwchradd blaengar rhagorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.

Nod y Strategaeth Iaith Uwchradd yw hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau. Bydd y Strategaeth yn offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'n cefnogi gweledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu. Trwy roi pwyslais ar y Gymraeg, sicrheir bod plant Gwynedd yn hyfedr a hyderus ddwyieithog ac yn ymfalchïo yn y gwerth ychwanegol a roddir iddynt o gael dwy iaith, eu bod yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus yn gymdeithasol ac yn

broffesiynol wedi gadael yr ysgol a'u bod yn y pen draw yn trosglwyddo'r ddwy iaith i'r genhedlaeth nesaf yng Ngwynedd.

Mae hi hefyd yn cyfrannu i weithredu strategaeth ddwyieithog drwy hyrwyddo'r Gymraeg gan sicrhau ei bod yn gyfartal o ran statws a chyfleoedd.

Bydd pob ysgol yn gweithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd ac yn llwyddo i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r cynllun hwn.

Mae'r manylion allweddol wedi'u cymryd o'r ddogfen ddrafft 'Strategaeth Iaith Ysgolion Uwchradd Gwynedd'. Bydd y fersiwn terfynol ar gael ar ein gwefan neu gellir gofyn am gopi caled gan yr ysgol.

Cynllun 'Calon' (Cymraeg **a**r **I**afar **o'n** cwmpas**)**

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iaith Gwynedd. Mae yn ysgol ddwy ieithog ac yn unigryw yn ei lefel o ddwyieithrwydd, cefndir ieithyddol y disgyblion ac iaith y staff. Er fod rhesymau penodol dros hyn, mae'r ysgol yn benderfynol o greu ethos mwy Cymreig drwyddi draw. Mae'r ysgol yn ceisio hybu balchder disgyblion yn yr iaith, diwylliant hanes a threftadaeth Cymru.

Ein bwriad yw cael y disgyblion i ddangos balchder yn yr iaith Gymraeg oddifewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth (anffurfiol), sicrhau fod y disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig). I'w galluogi i ddod yn aelodau llawn o 'r gymuned ddwyieithog, sydd yn rhan o'u bywyd, mae yn hanfodol creu agwedd bositif tuag at ddwyieithrwydd, fel bo pawb yn yr ysgol yn dangos cydraddoldeb gyda'r iaith Saesneg.

Rydym am weld yr Iaith Gymraeg yn ffynnu ac felly yn anelu at:
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol o gwmpas yr ysgol, gweithgareddau all gyrsiol ac yn y gymuned.
- Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio yr iaith oddifewn i'r ysgol.
- Mwy o hyder ymhlith y staff/disgyblion i fod yn rhugl yn yr iaith.
- Dangos mwy o ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel rhan o'n hunaniaeth a'n treftadaeth genedlaethol.
- Creu canllawiau i ddatblygu dulliau mwy cyson a grymus er mwyn cynyddu y defnydd o'r Gymraeg drwy'r ysgol

Y Sefyllfa hyd yma:
Fel rhan o'r cynllun i hybu Cymraeg yn yr ysgol:
- Dilyn polisi 'Defnyddio Cymraeg yn gyntaf'
- Gwobrwyo disgyblion am eu defnydd o'r Gymraeg drwy gyfrwng y Cynllun 'Calon'.
- cefnogi staff i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau drwy ddarparu gwersi yn Gymraeg. (Bydd mentor ar gyfer pob dysgwr, sef aelod o'r adran Gymraeg, fydd yn eu helpu ac yn eu cefnogi).

Y Camau Nesaf:
- Fframwaith fydd yn sicrhau fod yr ysgol i gyd yn rhan o hyn.
- Cryfhau y cyswllt rhwng y cymuned a'r ysgol trwy prosiect penodol fydd yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth tymor y Gwanwyn 2018.
- Cysylltiad agosach gyda'r ysgolion cynradd er mwyn rhannu arfer da.

YSGOL SY'N HYBU IECHYD

Mae'r ysgol wedi bod yn aelod o gynllun Ewropeaidd Ysgolion Iach Gwynedd ac rydym ar ein 13 blwyddyn o weithgareddau. Roedd yr ysgol yn falch iawn i dderbyn Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru ar diwedd 2014. Ein prif nôd eleni fydd annog ein plant i wneud dewisiadau iach yn y bwyd ac yn ei fwyta. Er mwyn gwneud hyn rydym wedi:-
- cynnal 'Bar Bwyd' sydd yn cynnig dewis o frechdanau a salad yn ogystal â'g ysgytlaeth.
- annog disgyblion i yfed mwy o ddŵr - gofyn iddynt i ddod a photeli dŵr i'r ysgol. (Ni chaniateir i'r disgyblion yfed unrhyw ddiod yn y llyfrgell, yr ystafelloedd Gwyddoniaeth a TGC am resymau diogelwch).
- cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau glendid y poteli dŵr yn ddyddiol.

Ym mis Mawrth, wedi mis o waith caled, cynhyrchodd Fforwm Bwyta'n Iach yr ysgol Lyfr Risetau Bwyta'n Iach i'w werthu, a trefnwyd gweithgareddau i gefnogi'r Wythnos Bwyta'n Iach (12-16 Mehefin).

Wythnos Cyfleon 11 – 14 Gorffennaf 2017

Cafodd Wythnos Cyfleon anhygoel unwaith eto, gyda nifer o weithgareddau cyffrous yn digwydd yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Dyma rhai o lluniau'r wythnos:

- Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 7 weithdy graffiti, diwrnod yn 'Electric Mountain', Llanberis. Bu Bl 7 hefyd yn canŵio, cerdded a dringo yn Cae Du.
- Cafodd Bl 8 gweithdy robotics, y cyfle i fynd i 'Silver Mountain/Dark Chasm', Ponterwyd, canŵio yn y Broadwater, taith gerdded yn Aberdyfi a gweithgareddau anturus yn nghanolfan yr 'Outward Bound'.
- Cafodd Bl 9 y cyfle i fynd i Telford i sglefrio, a'r cyfle i fwynhau beicio a 'lazertag' yn Ynys Maengwyn. Ar dydd Gwener cawsant gyfle i mynd a'r trampolîn, syrffio, coginio a charate.
- Bu Bl 10 ar Alldaith i 'Kings' Dolgellau, yn cael eu cyffroi wrth fynd ar y 'zipwire' yn Arthog ac hefyd y cyfle cyntaf i gerdded ceunant ym Maentwrog

Roedd pawb wedi mwynhau'r wythnos gan gynnwys yr athrawon! Diolch i'r holl staff am eu hymroddiad yn ystod yr wythnos.

Wythnos Sgiliau

Yn ystod yr wythnos, roedd pob grŵp yn dilyn rhaglen strwythuredig o weithgareddau - gyda nod a phwrpas fel a ganlyn:

- Blwyddyn 7 – datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn gwyddoniaeth trwy ymweld a chanolfan Natur Ynys Hir i gwblhau tasgau yn ymwneud a bywyd natur. Cafwyd hefyd sesiwn addysg rhyw ac hefyd sesiwn codio digidol
- Blwyddyn 8 – datblygu sgiliau llythrennedd a llythrennedd digidol trwy waith ymchwil i hanes tref Tywyn a'r dalgylch ac yna creu QR codes i ymwelwyr yn nodi y gwahanol agweddau o hanes.
- Blwyddyn 9 – sgiliau rhifedd a llythrennedd. Daeth Banc Barclays i mewn i gyflwyno cyfres o sesiynau ar gyllid personol. Yn ystod yr wythnos hefyd roedd rhaid i ddisgyblion baratoi, mewn grwpiau, cyflwyniadau i flwyddyn 7 am agwedd o'r cwricwlwm ABaCh. Daeth Nyrs yr ysgol a PC John i mewn i helpu'r disgyblion gyda'u cyflwyniadau. Cafwyd sesiwn addysg rhyw.
- Blwyddyn 10 – BAC Cymreig, bu'r disgyblion yn gweithio ar unedau o ddinasyddiaeth.

Gwasanaethau Cefnogi

Nyrs Ysgol	Nyrs Ann Hughes
Swyddfa Lles Addysg	Miss Eleri Wyn Jones
Cynghorwr ysgol	Miss Deneise Jones
Swyddog Cynhwysiad	Miss Bethan Williams
Ymgynghorydd Gyrfau	Mr Andrew Jones
Swyddog Cyswllt Heddlu/Ysgol	PC JP Rowlands-Ralph
Swyddog 5 x 60	Mrs Elen Pugh

Yn ychwanegol at y tiwtoriaid dosbarth, Anogwyr Dysgu, mae'r bobl enwir uchod i gyd wedi ein helpu i ddarparu cefnogaeth addas ar lefel addas i ddisgyblion, yn ôl eu anghenion. Rydym bob amser yn falch o groesawu cefnogaeth i'n disgyblion ac hefyd unrhyw ddarpariaeth ychwanegol.

Perfformiad Ariannol

Yn unol â'r fformiwla dyrannu cyllid i ysgolion uwchradd Gwynedd ac ar sail y raddfa gyllidol bresennol, mae lleihad o 243 disgybl wedi golygu lleihad o tua £719,000 y flwyddyn yn nyraniad Ysgol Tywyn - mae hynny'n swm sylweddol iawn. Erbyn hyn, mae nifer y disgyblion wedi cynyddu i 271 ym Medi 2016 gyda rhagolygon niferoedd disgyblion yr ysgol yn awgrymu lleihad i 265 yn Medi 2017 a chynnydd i 274 erbyn Medi 2018.

- O'r flwyddyn gyllidol 2014/15 ymlaen, penderfynodd Gwynedd gychwyn trefn o roi gwarchodaeth gyllidol i ysgolion uwchradd gyda niferoedd isel o ddisgyblion - roedd y drefn wedi ei selio ar nifer disgyblion, llai na 260 ar y cychwyn, oedd yn arwain at gyllido isafswm o 18.2 athro/awes.
- Nid oedd Ysgol Tywyn yn deilwng o warchodaeth gyllidol yn y flwyddyn gyntaf o'r cynllun newydd, sef 2014/15.
- Bu i'r ysgol dderbyn £46,667 o warchodaeth gyllidol yn 2015/16 a £19,193 yn ystod 2016/17.

- Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn peth gwarchodaeth gyllidol dros y tair blynedd nesaf fel a ganlyn -£6,300 yn 2017/18, £21,800 yn 2018/19 gyda dim gwarchodaeth yn 2019/20.
- Mae hyn er i niferoedd yr ysgol gynyddu mwy na'r 260 gwreiddiol oedd ei angen i gychwyn y warchodaeth gyllidol.
- Y rheswm am hynny yw bod y toriadau i gyllideb ysgolion uwchradd y sir yn golygu bod y dyraniad y disgybl yn llai ac felly bod angen mwy o ddisgyblion i gyllido 18.2 athro/awes - golygai hynny y bydd angen i ysgol uwchradd fod yn llai na thua 274 disgybl erbyn 2019/20 i fod yn gymwys i dderbyn gwarchodaeth gyllidol.
- Bydd unrhyw doriadau pellach i gyllideb yr ysgolion uwchradd o 2018/19 ymlaen – hynny heb ei drafod eto - hefyd yn effeithio ar y lefel o warchodaeth i'r ysgolion lleiaf.
- Mae'r dasg o adolygu, ad-drefnu ac ail-strwythuro'r cwricwlwm, y staffio a'r gyllideb mewn ymateb i'r her gyllidol sylweddol wedi bod yn un heriol iawn i'r ysgol dros y deg mlynedd diwethaf.
- Mae hynny hefyd wedi digwydd mewn cyfnod o orfod cynnal a chodi safonau, gwarchod natur ddwyieithog yr ysgol (gan sicrhau bod y Gymraeg yn greiddiol i waith a bywyd yr ysgol) a gwrthsefyll llif cyfran o ddisgyblion y dalgylch i ysgolion uwchradd eraill.
- Rhaid cydnabod y gwaith sylweddol mae'r ysgol eisoes wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diweddar mewn ymateb i'r heriau uchod wrth dderbyn yn llawn bod gwaith pellach i'w gwblhau ar draws yr heriau ac yn benodol mewn perthynas â gallu gosod cyllideb gytbwys yn gyson.
- Bu i'r ysgol adolygu cyfrifoldebau a lefel staffio holl staff ategol yr ysgol - staff gweinyddol, technegol, gofalwyr, cymorthyddion dysgu, ac yn y blaen - dros y blynyddoedd diweddar gan resymoli a lleihau nifer y swyddi gymaint ag oedd yn bosib - e.e. bu i'r swydd llyfrgellydd gael ei thorri - erbyn hyn, mae nifer a chyfrifoldebau staff ategol yr ysgol yn briodol i ysgol o'i maint presennol ac anodd iawn fydda ganfod arbedion pellach yn y maes hwn.
- Mae nifer grwpiau dysgu'r ysgol wedi eu lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar fel bod nifer athrawon yr ysgol wedi gallu cael eu lleihau o 32.4 ym Medi 2009 i 19.2 ym Medi 2016 – gostyngiad o 13.2 athro/awes dros gyfnod o saith mlynedd sydd gyfwerth ag arbediad blynyddol o tua £634,000.
- Er y toriadau i'r nifer grwpiau dysgu, mae'r ysgol yn parhau i ateb gofynion statudol cwricwlwm CA3 a CA4 gyda'r cydweithio gydag ysgolion eraill a'r coleg lleol yn gymorth mawr i sicrhau hynny yn CA4.
- Dros y blynyddoedd diweddar, bu i'r ysgol ad-drefnu'r Uwch Dîm Rheoli gan leihau o bedwar aelod (Pennaeth, Dirprwy Bennaeth a dau Bennaeth Cynorthwyol) i'r ddau aelod presennol (Pennaeth a Dirprwy Bennaeth) - mae hyn yn drwm ar y ddau aelod ond yn gymharol briodol i ysgol o'i maint presennol - mae hyn hefyd wedi cyfrannu arbedion cyllidol blynyddol o tua £80,000.
- Yn ogystal â'r arbedion yn y penawdau staffio, mae'r ysgol hefyd wedi adolygu a rhesymoli'r lefel o gyllid ym mhenawdau eraill y gyllideb - e.e. lwfans y pen, cyllid datblygu, offer TGC, cynnal yr adeiladau, ac yn y blaen - gan osod cyllideb or-dynn a braidd yn afrealistig - yn anffodus, mae hynny wedi arwain at orfod gorwario yn y gyllideb dros y blynyddoedd diweddar.
- Felly, mae arbedion pellach yn y staffio yn angenrheidiol ar gyfer gallu gosod a gweithredu cyllideb gytbwys yn gyson i'r dyfodol.

Ochr yn ochr â'r sefyllfa gyllidol, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i gynnal a chodi safonau gan sicrhau cynnydd da ar y cyfan:

- Cyfnod Allweddol 3 2016 - DPC 93.5%, Saesneg 95.7% a Mathemateg 95.7% i gyd yn chwartel 2, a Gwyddoniaeth 100% yn chwartel 1.
- Cyfnod Allweddol 4 2016 – TL2+ 75.0%, TL2 100%, TL1 100%, DPC 69.2%, y SPC 379.5, Saesneg 80.8% a Mathemateg 84.6% i gyd yn chwartel 1 a Gwyddoniaeth 94.2% yn chwartel 2.
- Cymraeg - mae datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth yn y cwricwlwm ac yn gyffredinol ym mywyd a gwaith yr ysgol er ei bod mewn dalgylch eithaf Saesneg - mae 95% o ddisgyblion yr ysgol yn dilyn cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 a CA4 er bod mwyafrif sylweddol ohonynt yn siarad Saesneg ar yr aelwyd - mae hynny'n glod i'r ysgol ond yn ei gwneud yn anodd iawn i'r ysgol lwyddo cystal yn y pwnc mewn cymhariaeth ag ysgolion mwy naturiol Gymraeg - oherwydd hynny, mae canlyniadau Cymraeg yn llai cadarnhaol ac ar hyn o bryd yn chwartel 4 yn CA3 ac yn CA4 - mae cynlluniau newydd ar y gweill gan yr ysgol i gryfhau ymhellach sgiliau ieithyddol Cymraeg y disgyblion - er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu Cydbwyllgor Iaith (yn cynnwys cynrychiolaeth o'r staff, y disgyblion a'r llywodraethwyr) i hyrwyddo statws a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ac maent wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r cynllun newydd arloesol Siarter Iaith Ysgolion Uwchradd.

- Presenoldeb – mae cynnydd da iawn wedi bod ym mhresenoldeb y disgyblion – roedd yn 95.4%, sef chwartel 1 yn 2016.
- Categoreiddio Ysgolion 2016 - mae'r ysgol yn Grŵp Safonau 1 ac yn y Categori Ysgolion Melyn (ail orau o bedwar categori) o ran angen cynhaliaeth.
  Mae'r ysgol erbyn hyn wedi dechrau cynyddu nifer ei disgyblion gan sicrhau bod holl ddisgyblion blwyddyn 6 y dalgylch yn dod i'r ysgol.
  Pe byddai'r ysgol wedi gweithredu'n fwy llym o ran torri staff i greu arbedion cyllidol a thrwy hynny allu gosod cyllideb gytbwys dros y tair blynedd diwethaf, mae'n debyg y byddai'r cynnydd da uchod yn y safonau a'r cynnydd yn y nifer disgyblion wedi ei lesteirio.
- Roedd lefel y warchodaeth gyllidol gan y Sir yn £19,193 yn 2016/17.
- Bu i'r ysgol greu arbedion pellach drwy dorri 1.0 athro/awes ar ddiwedd Awst 2016.
- Yn dilyn trafodaethau gydag Eifion Jones am y drefn, mae'r ysgol wedi mabwysiadu templed mwy effeithiol i geisio arwain at finiogi a thynhau eu trefn o osod cyllideb a monitro gwariant yn ystod y flwyddyn.
- Bu gorwariant eto yn 2016/17 o £57,000 - roedd hynny yn uwch na'r amcan gwreiddiol yn Nhachwedd 2016 o orwariant o £35,000 yn 2016/17 – golygai hynny bod y diffyg hanesyddol cronnus yn £116,000 ar ddiwedd 2016/17.
- Rhaid nodi bod £20,000 o'r gorwariant hwn yn 2016/17 yn gostau un waith ac am byth - £10,000 o ôl-daliad hanesyddol biliau trydan a £10,000 o gostau arholiadau - felly, dim ond £37,000 o'r gorwariant yn 2016/17 oedd oherwydd costau parhaol a fydd angen eu cyllido yng nghyllideb 2017/18 ar gyfer osgoi gorwario pellach.

<u>Newidiadau i lawlyfr yr Ysgol</u>
Gwnaed rhai addasiadau i Lawlyfr yr Ysgol, parthed: aelodaeth Llais y Disgybl, gwisg ysgol a Pholisi Anghenion Dysgu Ychwanegol.

<u>Diweddariad ar Reoli Perfformiad y Pennaeth</u>

Amcan 1: Gwella safonau yn y Gymraeg – targed 55% - 60%
Arfarniad: Wedi methu – ond nifer o ddisgy blion sydd yn sefyll yr arholiad TGAU Cymraeg yn 90% a 4ydd y nein teulu.

Amcan 2: Sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn fwy ymwybodol o safonau monitro i gynnwys craffu ar lyfrau / arsylwi gwersi.
Arfarniad: yn rhannol

Amcan 3: Llythrennedd Digidol: pob maes pwnc yn datblygu pob agwedd o'r FfD o fewn cynlluniau gwaith
Arfarniad: Yn rhannol

<u>Chwaraeon a newyddion a llwyddiannau Clwb 5 x 60</u>

- **Ysgol Uwchradd Tywyn**
- **Clwb 5x60**

Medi 2016
- Treialon pelrwyd Meirion D14 a D16
- Dechreuwyd bloc o 6 wythnos o wersi syrffio gydag Aber Adventures.
- Cynhaliwyd sesiynau 5x60 amser cinio yn y ganolfan hamdden gyda nifer o weithgareddau: badminton, pêl-rwyd, parkour, pêl-droed a dodgeball.

Hydref 2016
- Nifer fawr o ddisgyblion yn mynychu sesiwn gym yn y ganolfan hamdden yn wythnosol.
- Sesiynau badminton a pêl-droed amser cinio.
- Sesiynau nofio am ddim i gynyddu cyfranogiad.

Tachwedd 2016

- ❖ Gem pêl-droed v Bro Hyddgen
- ❖ Twrnamaint hoci D16
- Cynhaliwyd cystadleuaeth badminton 5x60 ym Morthmadog. 4 tîm yn cynrychioli'r ysgol: Bechgyn Bl 7/8 a Bechgyn Bl 9/10, Merched Bl 7/8 a Merched Bl 9/10. Bechgyn 7&8 a merched 9&10 yn ennill eu grwpiau.
- Sesiynau dringo yn cael eu cynnig – criw yn mynd i ganolfan dringo Harlech ar ôl ysgol.

Ionawr 2017

- Cynnal sesiynau rygbi merched a phêl-droed merched ar ôl ysgol

Chwefror 2017

- ❖ Traws gwlad Meirion Dwyfor - Bro Hyddgen
- ❖ Hoci D14 yn Ysgol y Moelwyn. Pencampwyr y twrnamaint
- ❖ Roedd tîm hoci D14 Ysgol Uwchradd Tywyn yn fuddugol eto wedi iddynt ennill Twrnamaint Hoci Eryri ym Mhenygroes. Chwaraeodd y tîm yn dda gan guro tair gem a gem gyfartal yn erbyn Ysgol Uwchradd Tryfan. Aeth ymlaen i gynrychioli Eryri yn Nhwrnamaint Ysgolion Cymru ym mis Mawrth yn Wrecsam.
- ❖ Traws gwlad Eryri: Aeth saith disgybl ymlaen i gynrychioli'r sir ym Mhencampwriaethau Eryri. Llwyddodd dau gyda Oliver Draisey yn curo unwaith eto, ac Ethan Rolfe yn y deg uchaf.
- Cystadleuaeth Dringo yn Harlech – Ysgol Uwchradd Tywyn yn cystadlu - Merched Bl 7/8 yn 1af - ymlaen i gynrychioli De Gwynedd yn y ffeinal.

Mawrth 2017

- ❖ Twrnament pêl-rwyd D14 Ann Smart
- ❖ Hoci D14 yn Wrecsam – Ffeinal: Aeth tîm o 16 merch ymlaen i gynrychioli Eryri yn Nhwrnamaint Hoci Ysgolion Cymru yn Wrecsam. Er chwarae'n dda iawn, roedd yn gystadleuaeth anodd a methwyd cyrraedd y rownd gyn-derfynol o drwch blewyn. Roedd yn brofiad arbennig ac mae'r tîm wedi cyflawni llawer. Da iawn ferched!
- ❖ Dawnsio'r Urdd – tîm blwyddyn 7 yn cystadlu
- Enillwyr y badminton a dringo yn mynd ymlaen i ffeinal y ddwy gystadleuaeth. Dringo yn yr Indy, Sir Fon a'r badminton yn canolfan hamdden Deeside.

Ebrill 2017

- Sesiynau pêl-droed dan do yn y ganolfan hamdden ar amser cinio.
- Grŵp mawr o ferched yn mynd i glwb rygbi Bala am ddiwrnod blasu rygbi gyda'r WRU i hybu y 'Rebels'.

Mai 2017

- ❖ Twrnamaint pêl-droed – Ynys Mon blynyddoedd 7, 8 a 9
- Gwersi syrffio yn ailddechrau gyda Aber Adventures.
- Aeth criw o ferched yr ysgol, disgyblion a staff i Aberystwyth er mwyn cwblhau Ras am Fywyd a chodi arian at Ymchwil Cancr.
- Aeth timau pêl-droed merched 7 ac 8 & 9 i Langefni i gystadlu yn erbyn ysgolion Mon a Gwynedd.

Mehefin 2017

- ❖ Sesiwn blasu rygbi merched blynyddoedd 7, 8 a 9
- ❖ Mynychodd 32 o ferched y sesiwn a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Dolgellau i hyrwyddo rygbi merched.
- Timau Bl 7 & 8 o'r ysgol yn mynd i glwb criced Dolgellau i gael twrnament criced gyda Ysgol y Berwyn ac Ysgol Bro Hyddgen.

Diwrnod Mabolgampau

Llongyfarchiadau i Dysynni ar ennill Cystadleuaeth Diwrnod Mabolgampau a llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran ym mhob rhan o'r chwaraeon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn arbennig i Mr Huw Williams a Miss Siony Rudd(adran AG), Mrs Elen Pugh (Swyddog 5x60) ac i'r gwirfoddolwyr o blith y rhieni fu yn barod i roi o'u hamser i arolygu a chario disgyblion i bobman.

Ymweliad Blwyddyn 6 (14-15 Mehefin)

Mewn dau ddiwrnod, dilynodd 60 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sampl o amserlen ac felly gael profiad o ddiwrnod ysgol 'arferol' fel a geir ym mlwyddyn 7, o fis Medi 2017 ymlaen. Bydd 2 grŵp tiwtor dosbarth, 7T a 7Y, gyda 30 a 30 o ddisgyblion yn y grwpiau. Cafodd y disgyblion brofi ychydig o Wyddoniaeth, Celf, Addysg Gorfforol, Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Daearyddiaeth a Cherdd. Roedd swyddogion/darpar swyddogion yn bresennol gyda phob dosbarth drwy'r dydd, a chawsant ginio yn y ffreutur gyda disgyblion yr ysgol.

Mae lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y derbyniad newydd yn amrywio o Lefel 3 i Lefel 5, gyda dim ond 5 o ddisgyblion yn dod o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith sy'n gallu cael ei siarad. Mae hyn yn gyfystyr a 8.3 % o'r grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, mae 90% o'r disgyblion wedi cyrraedd lefel 3+ neu uwch yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, a bydd felly, yn unol â pholisi Gwynedd, yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf. Bydd 11 o ddisgyblion (18 %) yn dilyn Cymraeg Ail Iaith.

Mae 19 disgybl (30%) ar hyn o bryd ar Gynllun Addysg Bersonol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (11 bachgen, 8 merch).

Codi Arian at Achosion Da

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o weithgareddau i godi arian at achosion da, yn cynnwys diwrnodau heb wisg ysgol. Rydym yn wastad wedi cefnogi achosion da lleol, cenedlaethol a rhai byd eang a'r llynedd, cefnogwyd y canlynol drwy ymdrechion disgyblion a staff: Plant Mewn Angen, Macmillan, Comic Relief, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Ras am Fywyd, Diwrnod Amgylchedd y Byd. Casglwyd dros £ 2,000 tuag at yr achosion da yma. Ar lefel lleol, defnyddiwyd Cae Rhianfa a'r Neuadd Gymunedol yn rhad ac am ddim, ar gyfer digwyddiadau i godi arian at achosion da.

Yn ychwanegol, codwyd dros £2,800 i brynu 2 diffibriliwr, wedi eu lleoli ar dir yr ysgol er cof am ddau disgybl arbennig iawn. Rhoddwyd y rhan helaeth o'r arian yn hael iawn gan rieni'r ddau. Mae'r ddau diffibriliwr ar gael i unrhyw un yn Nhywyn, ac yn cael eu hystyried yn deyrnged teilwng iawn.

Codi Arian at Ymchwil i Gancr 'Race for Life'
Ddydd Sul, 14 Mai, cwblhaodd grŵp o ddisgyblion y 'Race for Life' yn Aberystwyth gan godi arian i Ymchwil Cancr. Dyma'r disgyblion: Catrin Markham, Ruby Carney, Amber Broome, Cain Pugh, Shana Lewis, Sara Jones, Alex Owens, Skye Bickell, Ela Pugh, Els Jones staff: Siony Rudd, Gwenan Roberts, Elliw Morris ac Elen Pugh
Da iawn bawb am gymryd rhan yn y digwyddiadau pwysig yma ac hefyd diolch i Gwyneth Davies am yrru bws mini yr ysgol.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig 2016
Unwaith eto eleni, roedd grŵp o tua 50 o ddisgyblion brwdfrydig yn cymryd rhan yn y fenter yma. Anfonwyd nifer fawr o focsys esgidiau wedi eu haddurno yn lliwgar gyda phapur Dolig ac yn llawn i'r ymylon o gyfarpar ysgrifennu, teganau, gemau bychain, capiau, sgarffiau a thaclau ymolchi. Roedd plant ifanc yn y gwledydd tlawd wrth eu bodd gyda'r rhoddion oddiwrth ein disgyblion ni - 'diolch yn fawr' i'r disgyblion i gyd am barhau i gefnogi y fenter yma.

Digwyddiadau wedi eu noddi gan y Clwb Rotari

Cogydd Ifanc	22 Tachwedd 2016	Enillydd:		Elen Hughes
Cerddor Ifanc	24 Mai 2017	Enillwyr:	Nofis:	Ruby Parsons
			Sylfaenol:	Molly Aitken
			Uwch:	Sam Aitken
Cogydd Iau:	8 Mehefin 2017	Enillydd		Archie Davies
Outward Bound Ullswater, Lake District:		Gorffennaf 2017		Abi Hinton

Cyswllt a'r Cymuned

Amaethwyr Dysynni, Co-op, Dolly's, Fferyllfa, Llyfrgell Tywyn, Popty Tywyn, Swyddfa'r Post, Rivington's, Spar, Bwtri Blasus, Cigydd Aberdyfi, D. Hughes & Sons, Ciwbiau Ieuenctid Aberdyfi a Bryncrug	Cymryd rhan yng Nghynllun Tocyn Iaith yr ysgol er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Rhoddion gan nifer o fusnesau, o wobrwyon raffl ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau.
Cambrian News / Dail Dysynni	Papurau newydd cymunedol.
Cylchlythyr yr Ysgol	Yn cael eu dosbarthu yn llyfrgell y dref, y deintydd a'r canolfan iechyd i'r cyhoedd, ac i'r ysgolion cynradd lleol
Clwb Rotari Tywyn	Noddwyr cystadlaethau Cerddor Ifanc y Flwyddyn a Chogydd Ifanc y Flwyddyn.
Llyfrgell Tywyn	Arddangos gwaith Celf disgyblion yr ysgol
Heddlu Cymynedol	Gweithdai amrywiol a chefnogaeth i'r disgyblion a'r ysgol.
British Legion	Cysylltiadau gyda'r gangen leol.
Dros 60au	Cinio bob mis yn ffreutur yr ysgol.
Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion	Digwyddiadau a gweithgareddau i godi arian.

Rhoddion

Grwwp Llandrillo (STEM	£100
Aberdyfi Players	£200
CRhAaCh	£1,002

Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion.

Rydym ym hynod ddiolchgar i'r GRhAaCh am eu brwdfrydedd yn trefnu digwyddiadau i godi arian fydd yn cefnogi gweithgareddau all gyrsiol yn yr ysgol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r rhain wedi cynnwys 3 Noson Cwis, Ras Hwyaid a threfnu lluniaeth ysgafn a raffl yng Nghyngerdd Nadolig yr ysgol.

Maent, yn garedig iawn - wedi cyfranu £200 tuag at Clwb Celf ar ôl ysgol a 'laser cutter' newydd yn yr adran Dylunio a Thechnoleg.
Cyfanswm roddion 2016-2017: £754.14

Safle / Iechyd a Diogelwch

- Treuliodd contractwyr wythnos yn yr ysgol yn glanhau a symud teils llawr o'r Ystafell Brecwast a'r coridor a hefyd y coridor sy'n arwain i'r Neuadd Gymunedol a dau set o stepiau yn y Neuadd Gymunedol
- Treuliodd Contractwyr Flooring 3 wythnos yn gosod gorchudd llawr newydd ar ôl i'r tîm Asbestos orffen
- Cafodd drysau a fframiau pren eu tynnu a'u disodli gan unedau gwydr dwbl newydd yn y coridor sy'n arwain at y Neuadd Gymunedol gan Tywyn Glass and Construction am gost o £1,350.00.
- Cwblhaodd Anderson Tree Specialists ymchwiliad llawn ar y coed ym mhen blaen yr ysgol am gost o £250.00.
- Gwnaed atgyweiriadau ar y prif boeleri yn y Boiler House am gost o £800.00 a gosod llestr pwysau yn y gampfa am £300.00.
- Gwnaed gwaith i sicrhau bod pob tanciau dŵr yng Nghae Rhianfa yn cwrdd â gofynion Legionella, wrth lanhau tanciau a chael gwared ar yr holl goesau marw ar y waith pibellau.
- Cwblhau profion PAT ym mis Ebrill gan Falconers Electricals am gost o £1,056.
- Gwasanaethu offer nwy gan Gower Gas & Oil.
- Mae Larwm Torri Mewn wedi cael ei wasanaethu.
- Mae System Larwm Tân wedi cael ei wasanaethu a'i atgyweirio. Atgyweiriadau wedi costio £742.00.
- Offer ymladd tân wedi cael eu gwasanaethu gan Snowdonia Fire Protection Ltd am gost o £293.00.
- Arolygiad a gynhaliwyd gan Fumex ar yr unedau echdynnu wedi costio £300.00.
- Cwblhaodd Sports Safe wiriad diogelwch yn y gampfa. Yn dilyn yr arolwg hwn, oedd yn costio £100.00, rhoddwyd rhestr o ddiffygion a argymhellwyd i ddyfynbris. Roedd y pris hwn am £4,000.00. Bydd y gwaith hwn bellach yn cael ei wneud gennym ni am gost o £800.00.
- Prynwyd arwydd ysgol newydd gan Genesis ac mae bellach wedi'i godi ar flaen yr ysgol am gost o £165.00.

Ymweliadau a Theithau Preswyl

15 Medi 2016: Weithdy Mathemateg Bl 11 'Mathemateg yw ein dyfodol', Prifysgol Bangor
15 Hydref 2016: Alton Towers (Urdd)
10 – 13 Ebrill: Gwlad yr Iâ Bl 10 & Bl 11
12 Mai 2015: Cardiff Bl 7, 8, 9 – trip Urdd

Cyrchfan Disgyblion 16+ 2016 – 2017

Nifer ar y Gofrestr: 54 Bl 11	Merched	Bechgyn	Cyfanswm
Coleg Llandrillo, Dolgellau	9	21	30
Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth	6	2	8
Coleg Powys, Newtown	2	1	3
Glynlllifon	1	0	1
Ysgol Penglais, Aberystwyth	1	1	2
Coleg Llysfasi	2	2	4
Mewn Gwaith	1	1	2
Arall F/E	3	3	6

Presenoldeb 2016 - 2017

Blwyddyn	Cyfanswm Presenoldeb		Canran Presenoldeb		Absenoldebau heb Awdurdod		Absenoldebau heb Awdurdod		Absenoldebau gydag Awdurdod		Absenoldebau gydag Awdurdod	
					Cyfanswm		Canran		Cyfanswm		Canran	
	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M	B	M
7	9107	7884	96.7%	95.3%	0	0	0.0%	0.0%	318	401	3.3%	4.7%
8	9094	7948	96.1%	95.9%	0	0	0.0%	0.0%	376	349	3.9%	4.1%
9	7812	6997	96.1%	95.6%	1	2	0.0%	0.0%	329	330	3.9%	4.4%
10	6879	6956	96.7%	92.4%	1	91	0.0%	1.2%	243	504	3.3%	6.4%
11	7483	5953	97.5%	96.2%	2	0	0.0%	0.0%	200	240	2.5%	3.8%
Ysgol	40375	35738	96.6%	95.1%	4	93	0.0%	0.2%	1466	1824	3.4%	4.7%
Cyfanswm	76113		95.9%		97		0.1%		3290		4.0%	

Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi canolbwyntio ar bresenoldeb. Er mwyn gwella graddfa presenoldeb mae targedu triwantiaid gyda chymorth y Swyddog Lles, Swyddog Cyswllt yr ysgol a'r Heddlu, wedi cymryd lle. Mae hyn wedi cael effaith ar nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd yn hwyr heb reswm gan rieni. Hefyd, rydym wedi sicrhau grant o P.A.C.T. Er mwyn gwobrwyo disgyblion sydd yn cyrraedd 100% presenoldeb ynghyd â'r Tîm Ieuenctid rydym wedi penderfynu gwobrwyo disgyblion bob hanner tymor gyda thocynnau yn werth £10 i'r ddau ddisgybl lwcus o'r rhai fydd wedi cyrraedd 100% presenoldeb. Ar ddiwedd y flwyddyn bydd enwau yr rhai sydd wedi cyrraedd 100% presenoldeb am y flwyddyn yn cael eu tynnu allan o het a chaiff yr enillydd tocyn Amazon gwerth £50 - i'w gyflwyno yn y prynhawn Gwobrwyo. Bydd pob disgybl sydd wedi cyrraedd 100% presenoldeb yn ystod y flwyddyn yn derbyn tocyn Amazon gwerth £10.

Adolygu Polisïau yr Ysgol

Mae'r ysgol wedi adolygu y polisïau canlynol yn ystod 2016 – 2017:
Ymweliadau Addysgol, Bwyd a Ffitrwydd, Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, Polisi Atal (Radicaleiddo), Camddefnyddio Sylweddau, Gwaith Cartref, Iechyd a Diogelwch, E-Diogelwch, ABaCh, Diogelu ac Amddiffyn Plant, Defnydd o'r adeiladau ysgol y tu allan i oriau ysgol, Cyswllt â Diwydiant, Codi Tal am Weithgareddau Addysgol, Cynaliadwyedd, Ffonau symudol i staff, Defnyddio Gwirfoddolwyr, Cod Ymarfer i athrawon llanw, Gweithio Ysgol-i-Ysgol

Anghenion Addysgol Arbennig

Medi 2016	SA	SA+	Aseswyd	Datganiad	Cyfanswm
Nifer disgyblion ar Raddau AAA	40	48	0	6	94

Mae'r Cymorthyddion Dysgu yn rhoi gwasanaeth mor werthfawr i'r disgyblion, yn cynnwys cynnal y Clwb Brecwast, Buddies darllen, (Cymraeg a Saesneg) Clwb Gwaith Cartref a'r 'Hafan'.

Ym mhob ysgol mae llawer mwy i addysg na chymwysterau a chanlyniadau er dyma 'r Sylfaen ble cawn ein barnu! Foddbynnag, petai 'n rhaid i mi ddewis un elfen i'w ddewis tu hwnt i bob un arall byddai yn sicrhau fod pob disgybl sydd yn gadael yr ysgol wedi cyrraedd rhyw nod yn ei addysg.

Diolchiadau

Athrawon, rhieni
Staff gweinyddol, technegwyr, a chymorthyddion.
Mr Michael Davies, Gofalwr
Glanhawyr a staff y ffreutur
Y Llywodraethwyr – yn arbennig yr rhai sydd wedi gadael.

Mrs Helen Lewis
Pennaeth

Mr Arwel Pierce
Cadeirydd

Atodiad 1

Llywodraethwyr yr ysgol: Tywyn

Enw	*Cyfeiriad*	*Rhif FFôn*	Dyddiad olaf	*Categori*
HUGHES, Cyng. Louise	20 Maesegryn	01654 711051	31/08/2021	Awdurdod Addysg
LLOYD-JONES, Cyng. Anne	Hendy	01654 710457	31/08/2021	Awdurdod Addysg
OWEN, Cyng Robert Dewi	Esgairgyfela	01654767267	31/08/2021	Awdurdod Addysg
STEVENS, Cyng Michael	Verano	01654 712 225	31/08/2021	Awdurdod Addysg
PIERCE, Richard Arwel	Llain y Grug	01654 711470	31/08/2020	Cymuned
WILLIAMS, Elizabeth Ann	Trefri	01654 710127	31/08/2020	Cymuned
ARCH, David	Penbryn Bach	07891736093	31/08/2020	Cymuned
ROWLANDS-RALPH, John Paul	Brynllin	07725015888	31/08/2021	Cymuned
FREEMAN, Mark	61 Faenol Isaf	01654 711 182	31/08/2021	Athro
WILLIAMS, Huw	Maesnewydd	01654 700069	31/08/2019	Athro
BAIN, Michelle	25 Cambrian Rd	01654 712602	31/08/2020	Staff (Ategol)
DUNN, Nuala	Rhyd Uchaf	01654 710 521	01/09/2019	Rhiant
ROS, Manon Steffan	37 Ffordd Dyfrig	07887803067	31/08/2020	Rhiant
JONES, Anwen	6 Maengwyn St	01654 711380	31/08/2020	Rhiant
ROWLANDS, Hilary	35 Ffordd Dyfrig	07584305158	31/08/2021	Rhiant
LEWIS, Helen Marie	10 Maes y Grug		31/08/2020	Pennaeth
MUMFORD, Rachel	6 Dolithel	01654 711380	31/08/2020	Clerc

Atodiad 2

Final Accounts 2016/2017

Cyfrifon Terfynol 2016/2017

Ysgol	**Tywyn**		**4032**
		£	£
Balansau 31 Mawrth 2017	Balance 31 March 2017		- 59,375
Dyraniad 2016/2017	Allocation 2016-2017		1,438,697
			1,379,322
Dyraniadau Ychwanegol yn y flwyddyn:	Additional Allocation in the year		
Datganoli Integreiddio	Additional Learning Needs Provision	31,872	
Grant Refeniw Cyrsiau Lefel 1	Revenue Grant for Level 1 Courses	0	
Gwaharddiadau	Exclusions	0	
Eraill	Other	0	
			31,872
Cyfanswm adnoddau ar gael	**Total financial resources available**		**1,411,194**
Cyfanswm Gwariant Net 2016/2017 *(yn cynnwys llôg)*	**Total Net Expenditure 2016/2017**		**1,527,371**
Balansau 31 Mawrth 2017	**Balance 31 March 2017**		**-116,177**
*** Balansau fel % o Ddyraniad 2016/2017**	*** Balances as % of allocation 2016/2017**		**-7.90%**

Atodiad 3

Y Diwrnod Ysgol				
Dydd Llun – Dydd Iau			Dydd Gwener	
Cofrestru	8.30 – 8.50		Gwers 1A	8.30 – 9.10
Gwers 1	8.50 – 9.40		1B	9.10 – 9.50
2	9.40 – 10.25		2	9.50 – 10.30
Amser Egwyl	10.30 – 10.45		Amser Egwyl	10.30 – 10.45
3	10.45 – 11.35		3	10.45 – 11.35
4	11.35 – 12.25		4	11.35 – 12.25
Amser Cinio	12.25 – 1.05		Amser Cinio	12.25 – 1.05
5	1.05 – 1.55		5	1.05 – 1.55
6	1.55 – 2.45		6	1.55 – 2.45

Atodiad 4

GWYLIAU YSGOL 2017-2018

Dyddiadau tymor / gwyliau

Hydref 2017

- **Dechrau:** Dydd Gwener, 1 Medi
- **Hanner tymor:** Dydd Llun 30 Hydref - ddydd Gwener 3 Tachwedd
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 22 Rhagfyr

Gwanwyn 2018

- **Dechrau:** Dydd Llun, 8 Ionawr
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 12 Chwefror - ddydd Gwener, 16 Chwefror
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 23 Mawrth

Haf 2018

- **Dechrau:** Dydd Llun, 9 Ebrill
- **Calan Mai** (Gŵyl banc): Dydd Llun, 7 Mai
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 28 Mai - ddydd Gwener, 1 Mehefin
- **Gorffen:** Dydd Gwener, 20 Gorffennaf

Bydd yr ysgol yn ail-agor ddydd Llun, 3 Medi, 2018 i athrawon, a dydd Mawrth, 4 Medi i ddisgyblion.

Atodiad 5

Canlyniadau Profion Genedlaethol / National Test Results 2017

Canran y disgyblion o fewn pob ystod sgoriau:

Saesneg	< 85	85—115	115 >	**Cymraeg**	< 85	85—115	115 >
Blwyddyn 7	14%	75%	12%	Blwyddyn 7	32%	68%	0%
Blwyddyn 8	7%	75%	19%	Blwyddyn 8	34%	53%	14%
Blwyddyn 9	16%	57%	27%	Blwyddyn 9	33%	57%	10%

Rhifedd/ Rhesymu	< 85	85—115	115 >	**Rhifedd/ Gweithdrefnol**	< 85	85—115	115 >
Blwyddyn 7	17%	58%	25%	Blwyddyn 7	17%	56%	27%
Blwyddyn 8	8%	73%	19%	Blwyddyn 8	2%	81%	17%
Blwyddyn 9	14%	65%	22%	Blwyddyn 9	14%	67%	20%

Atodiad 6

	Pwnc neu Ddangosydd / Subject or Indicator	Lefel / Level	2015	2016	2017
Cyfnod Allweddol 3 / Key Stage 3	DPC / CSI	5+	92.6	93.5	94.1
	Saesneg / English	5+	98.1	95.7	96.1
	Cymraeg / Welsh	5+	89.6	86.7	95.2
	Mathemateg/ Mathematics	5+	92.6	95.7	96.1
	Gwyddoniaeth / Science	5+	100	100	94.1
	Cymraeg Ail Iaith / Welsh Second Language	5+			
	Saesneg / English	6+	53.7	76.1	70.6
	Cymraeg / Welsh	6+	35.4	40	52.4
	Mathemateg/ Mathematics	6+	66.7	73.9	70.6
	Gwyddoniaeth / Science	6+	75.9	78.3	76.5
	Cymraeg Ail Iaith / Welsh Second Language	6+			
	Saesneg / English	7+	22.2	23.9	25.5
	Cymraeg / Welsh	7+	14.6	13.3	16.7
	Mathemateg/ Mathematics	7+	27.8	34.8	31.4
	Gwyddoniaeth / Science	7+	24.1	32.6	39.2

Cyfnod Allweddol 4 / Key Stage 4	Trothwy Lefel 2+ / Level 2+ Threshold	2	60	75	62.3
	Trothwy Lefel 2 / Level 2 Threshold	2	97.8	100	81.1
	Trothwy Lefel 1 / Level 1 Threshold	1	100	100	100
	Bag Cenedlaethol / Bacc National	2	93.3	96.1	98.1
	Bag Sylfaen / Bacc Foundation	1			
	9 Wedi'i gapio / Capped 9	-			385.2
	5A*-A	2	26.7	15.4	18.9
	Saesneg / English	2	73.3	80.8	75.5
	Cymraeg / Welsh	2	63.6	48.9	40.4
	Mathemateg/ Mathematics	2	62.2	84.6	67.9
	Maths Rhifedd / Maths Numeracy	2			71.7
	Mathemateg Gorau / Mathematics Best	2			73.6
	Gwyddoniaeth / Science	2	91.1	94.2	71.7

Presenoldeb / Attendance	94.9	95.4	95.9

Rhai esboniadau / Some explanations

CA3 / KS3:

DPC / CSI:

Dangosydd Pwnc Craidd / Core Subject Indicator. Level 5 or above in English or Welsh (1st Language), Maths & Science.

Level 5 is the expected grade for a pupil to reach at the end of KS3.

CA4 / KS4:

Trothwy Lefel 2+ / Level 2+ Threshold:

5 x A*-C GCSEs (or eqivalent) inc. English or Welsh (1st language) and either Maths or Maths-Numeracy.

Trothwy Lefel 2 / Level 2 Threshold:

5 x A*-C GCSEs (or equivalent) in any subject.

Trothwy Lefel 1 / Level 1 Threshold:

5 x A*-G GCSEs (or equivalent) in any subject.

There is a limit of 40% on the contribution of non-GCSEs to the Level 1, Level 2 and Level 2+ threshold

9 Wedi'i Gapio / Capped 9:

5 of the 9 qualifications used to calculate the score will be:

- GCSE English Language or GCSE Welsh Language (whichever is the pupil's best)
- GCSE Mathematics-Numeracy and GCSE Mathematics
- The pupil's best 2 science qualifications (from 2018, this will be their best 2 science GCSEs)

The other 4 qualifications will be the pupil's best (highest grade) other qualifications. These could be GCSEs, vocational qualifications or the Skills Challenge Certificate (the core of the new Welsh Baccalaureate).

Meincnodi / Benchmarking

Benchmarking quartiles measure the performance of one school against others who have **similar levels of pupils with FSMs (Free School Meals).**

FSM is used as a measure of social deprivation in schools. This allows comparisons of the performance of a school against others who are in the same FSM category , and who might therefore have a similar intake of pupils from deprived backgrounds.

Schools are placed in quartiles; 1 = Green, 2 = Yellow, 3 = Amber, 4 = Red for each indicator.

A school in benchmark 1 (green) is in the highest performing 25% of schools with similar levels of FSM.

This is the main performance benchmarking tool.

Another way of comparing performance is through the **Families of schools**, which were created to facilitate the sharing of good practice.

'Families' of schools have been created by initially grouping them based on size and linguistic delivery and then within each high level grouping, schools are ordered in descending order according to the values of an index of 'challenge' (FSM levels, Welsh Deprivation Index, SEN pupils over a 3 year average).

Our family since 2016 is:

1. **Ysgol Uwchradd Tywyn**
2. Ysgol Ardudwy
3. Ysgol Glan y Mor
4. Ysgol Bro Hyddgen
5. Ysgol David Hughes
6. Ysgol Gyfun Gwyr (Gowerton)
7. Ysgol Brynrefail
8. Ysgol Gyfun Aberaeron
9. Ysgol Uwchradd Caereinion
10. Ysgol y Berwyn
11. Ysgol Henry Richard (Tregaron)

Within each family, the first member is the most challenged, the last the least challenged.

School performance data published in the Welsh Government Core Data Packs compares performance within families and also by benchmarking quartiles.